

Macmillan Q Lab

Rôl Cyfrannwr Unigol

Cynnwys

Y broses ymgeisio a'r amserlen	1
Sut i wneud cais – cam wrth gam	1
Pwy all wneud cais	3
Treuliau	3

Y broses ymgeisio a'r amserlen

Sut i wneud cais – cam wrth gam

Cam 1: Darllenwch y canllaw rôl Cyfrannwr Unigol hwn ynghyd â'r pecyn gwybodaeth

(Ar gael ar dudalen we Macmillan Q Lab [Macmillan Q Lab | Cymorth Canser Macmillan](#))

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall beth rydyn ni'n chwilio amdano ac a fydddech chi'n addas.

Cam 2: Cwblhewch y ffurflen gais

Dolen i'r ffurflen gais ar-lein i'w cwblhau: [Cyfrannwr Unigol Macmillan Q Lab - Ffurflen Gais](#)

 Pwysig – Darllenwch cyn dechrau

Nid ydym yn disgwyl nac yn argymhell bod unrhyw un yn cwblhau'r ffurflen gais yn uniongyrchol ar-lein mewn un tro. Mae hyn oherwydd nad yw'r ffurflen ar-lein yn cadw eich cynnydd yn awtomatig. Os byddwch yn cau eich porwr neu'n colli eich cysylltiad rhyngwyrdd, bydd unrhyw waith heb ei gyflwyno yn cael ei golli. Rydym yn argymhell eich bod yn cwblhau'r camau canlynol:

1. Lawrlwythwch y fersiwn Word yn gyntaf (ar gael ar dudalen we Macmillan Q Lab [Macmillan Q Lab | Cymorth Canser Macmillan](#))
2. Cwblhewch eich atebion all-lein – mae hyn yn caniatáu i chi gadw, adolygu a rhannu eich ymatebion gyda chydweithwyr
3. Copïwch a gludwch eich atebion terfynol i'r ffurflen ar-lein dim ond pan fyddwch yn barod i'w chyflwyno

Mae'r ffurflen gais yn cynnwys cwestiynau am:

- Egwyddorion Cyfranwyr
- Eich manylion
- Diddordeb a phrofiad

Ffurflen Monitro EDI

Er mwyn ein galluogi i fonitro a gwella effeithiolrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein proses recriwtio, byddwn yn gofyn cwestiynau i chi am eich ystod oedran, crefydd, grŵp ethnig, grŵp economaidd-gymdeithasol, rhyw, rhywedd, rhywioldeb ac iechyd. Mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol, a gallwch ddewis "Gwell gennyf beidio â dweud" fel eich ateb i bob un o'r cwestiynau hyn.

<tick> Ticiwch os ydych yn fodlon i Macmillan ddefnyddio unrhyw wybodaeth y dewiswch ei rhannu yn y modd hwn.

Drwy gyflwyno'r ffurflen hon, rydych yn cydsynio i ni ddefnyddio eich manylion i anfon e-bost atoch pan fydd gwybodaeth am y cais ar gael a phan fydd Macmillan Q-Lab yn lansio. Rydym yn addo cadw eich manylion yn ddiogel a pheidio byth â'u gwerthu na'u cyfnewid ag unrhyw un. Mae ein polisi preifatrwydd <https://www.macmillan.org.uk/privacy-policy> yn esbonio sut rydym yn cadw'r addewid hwn.

Cam 3: Cyflwyno erbyn y dyddiad cau

Cyflwynwch eich ffurflen drwy'r ffurflen ar-lein erbyn 11.45pm ar **7 Hydref**.

Byddwn yn anfon e-bost cadarnhau awtomatig atoch unwaith y byddwn wedi derbyn eich ffurflen gais.

Cam 4: Asesu Ffurflenni Cais

Cyfnod asesu: 12 Hydref – 9 Tachwedd 2026

Yn ystod yr asesiad, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i:

- Sicrhau ein bod wedi deall rhywbeth yn eich ffurflen yn iawn
- Gofyn am ragor o wybodaeth am rywbeth rydych chi wedi'i ysgrifennu

Mae hyn yn rhan arferol o'r broses – nid yw'n golygu bod problem gyda'ch ffurflen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu ymateb i unrhyw ymholiadau yn ystod y cyfnod hwn. Os nad ydych chi ar gael, rhwch wybod i ni ymlaen llaw.

Cam 5: Gwneud penderfyniadau

Bydd cyfranwyr yn cael eu dewis i sicrhau cynrychiolaeth amrywiol o blith y rhai sydd â phrofiad byw o ganser; a chymunedau, cefndiroedd, arbenigedd proffesiynol a safbwyntiau amrywiol ledled Lloegr a'r gwledydd datganoledig.

Bydd panel gwneud penderfyniadau yn adolygu pob cais ac yn gwneud penderfyniadau terfynol.

Cam 6: Cyfathrebu canlyniadau

Os byddwch yn **llwyddiannus**, byddwn yn anfon:

- Copi o gytundeb cyflenwi gwasanaethau Cymorth Cancer Macmillan
- Gwahoddiad i'r alwad ymsefydlu a'r gweithdai

Os na fyddwch yn llwyddiannus, byddwn yn anfon cadarnhad drwy e-bost.

Pwy all wneud cais

Mae dau fath o gyfrannwr unigol:

1. Pobl sydd ag arbenigedd o brofiad byw o ganser neu o ofalu am rywun â chanser.
2. Pobl sydd ag arbenigedd proffesiynol.

Rhaid i unrhyw gyfrannwr fod wedi'i leoli yn y DU a gallu ymrwymo i'r amser sydd ei angen i gymryd rhan lawn yn y Labordy.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan:

- Pobl sydd â phrofiad byw o ganser.
- Pobl yr effeithir arnynt gan ganser (gofalwyr)
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Pobl o sefydliadau llawr gwlad sy'n gweithio gyda phobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser.
- Pobl sydd â chefnidir mewn data a chraffu.
- Pobl sydd â gwybodaeth ymarferol am ymgysylltu â'r gymuned.
- Pobl sydd â chefnidir mewn polisi.

Os oes gennych chi brofiad arall nad yw wedi'i restru yma, gwnewch gais.

Rydym yn annog yn arbennig cyfranogiad pobl o gymunedau ethnig amrywiol, pobl anabl, pobl LHDTCrhA+, a'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor eraill.

Treuliau

Pob cyfrannwr:

Bydd Macmillan yn talu costau sy'n gysylltiedig â mynychu gweithdai - cysylltwch â Thîm Q Lab Macmillan drwy e-bost: QLabMacmillan@macmillan.org.uk

Pobl â phrofiad byw, gofalwyr a lleisiau cleifion:

- I gydnabod eich cyfraniad at raglen Macmillan Q Lab, byddwch yn derbyn £1,000, wedi'i rannu'n 2 daliad.
- Am unrhyw weithdai diwrnod llawn (naill ai ar-lein neu yn bersonol) a fynychir, byddwch hefyd yn derbyn £185.
- Derbynnir pob taliad drwy daliad BACS.

Cyfrifoldebau Treth Cyfranwyr:

Mae cyfranwyr yn gyfrifol am ddeall sut y gall taliadau effeithio ar eu treth neu hawl i fudd-daliadau. Rhaid i gyfranwyr ddatgan incwm trethadwy i CThEF, felly gallant ddewis derbyn y swm cydnabyddiaeth, derbyn swm is, neu beidio â derbyn cydnabyddiaeth ariannol o gwbl.